

**COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED Y BORTH A GYNHALIWDYD YN Y NEUADD
GYMUNEDOL NOS LUN, y 9fed o FAI 2022 am 19.00 O'R GLOCH**

Presennol: Cadeirydd: H Hughes
R Dalton
M Griffiths
A Hughes
G B Jones
A J Morris
D Pryce Jones
N Salmon A Thomas
H Williams
Yn bresennol: Clerc: M Walker
4 aelod o'r cyhoedd.

YMDDIHEURIADAU

1. Y Cynghorydd Bainbridge.

CYFRANOGIAD Y CYHOEDD

2. Darllenodd Mr Graham Taylor lythyr a oedd yn diolch i Gyngor y Borth am ei holl waith caled. Achubodd Mr Rory Wilson ar y cyfle hefyd i ddiolch i'r Gyngor am gynnal cyfarfodydd hybrid.

DATGAN BUDDIANNAU

3. Atgoffwyd y Cynghorwyr i ddatgan buddiant dan unrhyw faterion perthnasol a allai godi yn ystod y cyfarfod. Datganodd y Cynghorydd Hughes na fyddai'n gwneud dim sylwadau ynglŷn â chynllunio pe bai'n aelod o Bwyllgor Cynllunio Cyngor Sir Ceredigion.

COFNODION Y CYFARFOD MISOL

5. Penderfynwyd cymeradwyo cofnodion y cyfarfod misol a gynhaliwyd o bell ar y 4ydd o Ebrill. Y cynigydd oedd y Cynghorydd Morris a'r eilydd oedd y Cynghorydd Jones. Pleidleisiodd yr Aelodau yn unfrydol o blaid y cynnig.

MATERION YN CODI

6. Dim.

GOHEBIAETH

7. Anfonwyd pob darn o ohebiaeth oddi wrth Un Llais Cymru, Llywodraeth Cymru a Chyngor Sir Ceredigion at bob Aelod cyn y cyfarfod. Ni chododd yr Aelodau ddim materion ynglŷn â'r ohebiaeth. Daeth gohebiaeth arall i law nad oedd angen gweithredu arni ynglŷn â'r Cynllun Noson Allan, Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol Gwirfoddolwyr Gorsaf y Borth, Cadarnhad bod Praesept 2022-23 wedi'i dalu, Cyngor Busnes Am Ddim gan Business in Focus, Gweminar: Y Man Cyfarfod Modern Cynaliadwy, Cylchlythyr Hwb Cymunedol Borth a hysbyseb i ddenu Ymddiriedolwyr, Gwefannau Cynghorau Plwyf sy'n Cydymffurfio'n Llawn, Cymorth Iechyd Meddwl i blant a phobl ifanc yn Sir Benfro, Ceredigion a Sir Gaerfyrddin, Gohebiaeth a anfonir at Gyngorau Cymuned ynglŷn â Chreu Coetiroedd, Hysbysiadu gan raglen Dosbarthu Bwyd Cymunedol Cymru, NBB Outdoors, Archwilio Cymru – arolwg lle bydd eich barn yn rhan allweddol o dystiolaeth i lywio adolygiad cenedlaethol sy'n ystyried sut mae awdurdodau lleol yn cefnogi cydnerthedd cymunedol, BT- Cau Ffordd Dros Dro - Glanwern, Clerk & Councils Direct a Chyfleusterau cyffrous newydd ym meysydd chwarae Ceredigion.

8. ROSPA. Rhybudd y bydd y maes chwarae yn cael ei archwilio ym mis Mehefin.

9. Amgueddfa Gorsaf y Borth yn ailagor. Copi o lythyr a anfonwyd at Drafnidiaeth Cymru i ofyn am gyllid ar gyfer cyflenwad dŵr newydd.

10. Llefydd Lleol ar gyfer Natur. Mae modd cyflwyno ceisiadau unwaith yn rhagor, ac mae cannoedd yn rhagor o becynnau ar gael.

11. TALIADAU I AELODAU CYNGHORAU TREF A CHYMUNED. Mae gan bob Aelod hawl i gael £150 fel y pennir gan Banel Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol. Os yw Aelod yn dymuno gwrthod y taliad, rhaid gwneud hynny drwy ysgrifennu at y Clerc.

12. Hyfforddiant. Bu'r Clerc yn bresennol yn ddiweddar mewn sesiwn hyfforddi ar y Cod Ymddygiad. Y cyngor oedd i bob Cyngorydd fanteisio ar yr hyfforddiant pan fydd ar gael.

CYFRIFON

13. Gweddill y Cyfrifon ar y 13eg o Ebrill 2022

Nationwide	25312.45
Cyfrif Elusennol	3992.23
Cyfrif Adnau Dim Rhybudd	0.41
Cyfrif adnau	3829.47

14. Incwm

Cyfrif Elusennol – ad-dalu ffioedd	5.00
Rhent am safleoedd tirlenwi'r ac amwynder dinesig y Borth	4616.50
Cyfrif Nationwide – llog gros hyd 31/3/22	82.74
CSC – Taliad 1af y praesept	6556.00

15. Gwariant – Penderfynodd yr Aelodau dalu'r canlynol: Y cynigydd oedd y Cyngorydd Bainbridge a'r eilydd oedd y Cyngorydd Jones. Pleidleisiodd yr Aelodau yn unfrydol o blaid y cynnig.

Mr Flag.com – Baner y Ddraig Goch	85.80
Abercolour Computers – cyfarpar hybrid	1492.80
Y Comisiynydd Gwybodaeth – ffi diogelu data	40.00
M Walker – cyflog 637.05, costau swyddfa 27.97	665.02
Heledd Davies – Cyfieithu cofnodion Mawrth ac Ebrill	174.25
H Hughes – ategolion ar gyfer y cyfarfodydd hybrid	54.75

CYNLLUNIO

16. Cais am Ganiatâd Cynllunio Llawn.

A220124 – Estyniad llawr gwaelod i gefn eiddo. Kered, Ffordd Clarach, Borth. **Ni chafwyd dim sylwadau ac ni wrthwynebodd neb.**

A220190 – Lloc storio binau arfaethedig. Canolfan Ymwelwyr Ynyslas. **Ni chafwyd dim sylwadau ac ni wrthwynebodd neb.**

A220209 – Rhyddhau amod 5 cais cynllunio A210411 (Arolwg ffotograffig)

A220217 - Rhyddhau amod 15 cais cynllunio A210411 (adroddiad ecoleg)

A220219 - Rhyddhau amod 16 cais cynllunio A210411 (arfarniad ecolegydd)

A220222 - Rhyddhau amod 17 cais cynllunio A210411 (cynllun atal llygredd)

Tir i'r dwyrain o Renfrew Drive, Ynyslas, y Borth.

AMDDIFFYN YR ARFORDIR A LLIFOGYDD

17. Mae'r mater yn parhau.

ARWYDDION AR Y PROMENÂD

18. Cytunodd yr Aelodau i adolygu'r gorchmynion cŵn cyn ymgynghoriad 2023. Cynigiodd y Cyngorydd Andrea Hughes fod y Cyngor yn gofyn i'r Cadeirydd holi pryd y disgwylir yr ymgynghoriad fel bod digon o amser i gasglu gwybodaeth a chyflwyno sylwadau. Eiliwyd y cynnig hwn gan y Cyngorydd Williams a phleidleisiodd yr Aelodau yn unfrydol o blaid y cynnig.

Y WAL GYFERBYN Â SIOP PREMIER

19. Rhoddodd y Cynghorydd Hughes ddiweddariad byr i'r Aelodau newydd ar berchnogaeth tir ar y promenâd gyferbyn â Siop Premier. Gofynnodd i'r Clerc anfon yr holl ohebiaeth ddiweddar rhwng Cyngor Sir Ceredigion a Chyngor Cymuned y Borth ynghylch yr amddiffynfeydd arfordirol at Aelodau newydd y Cyngor.

MATERION Y CADEIRYDD

20. Mae baner y Ddraig Goch wedi'i disodli gan faner Wcraïn yn y maes parcio gyferbyn â Brynowen. Dywedodd y Cynghorydd Hughes wrth yr Aelodau fod y cyfrif Zoom ar fin cael ei adnewyddu. Esboniodd fod y pecyn meddalwedd ar y gliniadur newydd yn cynnwys Teams, sy'n costio tua £78 y flwyddyn o'i gymharu â £120 am y drwydded Zoom. Holodd a allai'r Cyngor ddefnyddio Teams yn y dyfodol yn hytrach na Zoom er mwyn arbed rhagor o gostau. Fodd bynnag, yn dilyn dadl fer, cynigiodd y Cynghorydd Bryn Jones y dylid parhau i ddefnyddio Zoom. Eiliwyd y cynnig hwn gan y Cynghorydd Jones a phleidleisiodd yr Aelodau yn unfrydol o'i blaid. Mae'r Cynghorydd Hughes wedi cytuno i brynu baneri ar gyfer y pentref i ddathlu Jiwbil'r Frenhines.

CYFRIFOLDEBAU'R CYNGHORWYR

21. Cadarnhaodd y Cynghorydd Pryce Jones y bydd yn cysylltu â Cliff Bates o Gyngor Sir Ceredigion ynghylch y cadeiriau olwyn ar gyfer y traeth. Soniodd hefyd am sbwriel a'r biniau stryd sy'n orlawn.

Dywedodd y Cynghorydd Dalton wrth y Cyngor fod Cyngor Sir Ceredigion wedi trwsio'r to ar y safle bws ger siop It's a Gift.

Dywedodd y Cynghorydd Griffiths fod faniau gwersylla yn dal i barcio gyferbyn â Pebbles a Siop Premier a bod maes parcio'r Clwb Golff yn codi £10 y noson ar bobl i aros yno. Nodwyd bod diffyg llefydd parcio yn broblem a chytunwyd y dylai'r Cyngor ymdrechu i gael gwybod pryd y disgwylir yr ymgynghoriad nesaf ar yr adolygiad parcio.

Awgrymodd y Cynghorydd Hughes y dylid mynd i'r afael unwaith eto â'r holl faterion a godwyd yn ystod y 4/5 mlynedd diwethaf ac y dylid creu rhaglen i fynd i'r afael â nhw.

Soniodd y Cynghorydd Williams am gyflymder y traffig ar hyd Ffordd Clarach a bod y gwrych ger Bewick

House bellach wedi tyfu i'r fath raddau fel ei fod yn cyrraedd y ffordd. Awgrymwyd y dylai'r Cynghorydd

Williams roi gwybod am y mater drwy Clic Ceredigion. Soniodd hefyd am gynllun lle bo cynghorau cymuned a sefydliadau yn prynu tai i'w rhentu i bobl ifanc leol er mwyn lliniaru problemau tai.

Rhoddodd y Cynghorydd Jones ddiweddariad byr ynglŷn â'r Grŵp Iechyd a Gofal a gyfarfu'n ddiweddar.

ADRODDIAD Y CYNGHORYDD SIR

22. Dim adroddiad.

23. Cadarnhaodd y Clerc ei bod yn bwriadu ymddiswyddo gan roi tri mis o rybudd yn unol â'i contract. Bydd yn gadael ddiwedd mis Awst.

Y CYFARFOD NESAF A'R MATERION I'W CYNNWYS AR YR AGENDA

24. Gan nad oedd rhagor o faterion i'w trafod, daeth y Cadeirydd â'r cyfarfod i ben am 8.58pm. Ymhlith yr eitemau ar agenda'r cyfarfod nesaf a gynhelir nos Lun, y 6ed o Fehefin 2022 fydd Amddiffyn yr Arfordir a Llifogydd, Arwyddion ar y Promenâd, y Wal gyferbyn â Siop Premier, Dathlu Ray Quant MBE a diweddarau Cyfrifoldebau'r Cynghorwyr. Cysylltwch â'r Clerc os ydych am ychwanegu eitemau eraill at yr agenda. Bydd y Cynghorydd Hughes yn anfon dolen at bawb cyn y cyfarfod.